

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a P Gareth Williams
fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 12 Mehefin 2023 0300 200 6565
Amser: 13.30 SeneddDCC@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (13.30)

2 Sesiwn dystiolaeth gyda Swyddfa'r Farchnad Fewnol

(13.30 – 14.30) (Tudalennau 1 – 24)

Murdoch MacLennan, Cadeirydd Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol

James Waugh, Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Farchnad Fewnol

Dogfennau atodol:

LJC(6)-18-23 – Papur 1 – Briff Ymchwil [Saesneg yn unig]

3 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.30 – 14.35)

3.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru

(Tudalen 25)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-18-23 – Papur 2 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y
Cyfansoddiad, 2 Mehefin 2023

3.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd a'r Gweinidog Newid Hinsawdd: Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

(Tudalennau 26 – 27)

Dogfennau atodol:



LJC(6)-18-23 – Papur 3 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd a'r Gweinidog Newid Hinsawdd, 6 Mehefin 2023

3.3 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio) 2023

(Tudalennau 28 – 29)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-18-23 – Papur 4 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 7 Mehefin 2023

LJC(6)-18-23 – Papur 5 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 7 Mehefin 2023

3.4 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â'r UE) 2023

(Tudalennau 30 – 33)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-18-23 – Papur 6 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 7 Mehefin 2023

LJC(6)-18-23 – Papur 7 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 7 Mehefin 2023

3.5 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach

(Tudalennau 34 – 36)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-18-23 – Papur 8 – Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, 7 Mehefin 2023

LJC(6)-18-23 – Papur 9 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, 7 Mehefin 2023

4 Papurau i'w nodi

(14.35 – 14.40)

4.1 Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Sefydliad Bevan i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Bil Mudo Anghyfreithlon

(Tudalennau 37 – 47)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-18-23 – Papur 10 – Tystiolaeth Ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Sefydliad Bevan

4.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Amgylchedd Bwyd Iach

(Tudalen 48)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-18-23 – Papur 11 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 8 Mehefin 2023

5 Gohebiaeth yn ymwneud â Chanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref

(14.40 – 14.45)

(Tudalennau 49 – 89)

[Datganiad Ysgrifenedig: Canllawiau Statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref.](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-18-23 – Papur 12 – Gohebiaeth at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad [Saesneg yn unig]

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.45)

7 Sesiwn dystiolaeth gyda Swyddfa'r Farchnad Fewnol: Trafod y dystiolaeth

(14.45 – 14.55)

- 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig**
(14.55 – 15.10) (I ddilyn)
Dogfennau atodol:
LJC(6)-18-23 – Papur 13 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]
- 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Mudo Anghyfreithlon**
(15.10 – 15.25) (I ddilyn)
Dogfennau atodol:
LJC(6)-18-23 – Papur 14 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]
- 10 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Diogelwch Ar-lein (Rhif 3 a Rhif 4)**
(15.25 – 15.30) (Tudalennau 90 – 92)
Dogfennau atodol:
LJC(6)-18-23 – Papur 15 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]
- 11 Cytundebau rhyngwladol**
(15.30 – 15.35) (Tudalennau 93 – 97)
Dogfennau atodol:
LJC(6)-18-23 – Papur 16 – Briff gan Ymchwil y Senedd [Saesneg yn unig]
- 12 Trafod gohebiaeth yn ymwneud â Chanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref**
(15.35 – 15.50)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DC/CG/00060/23

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

2 Mehefin 2021

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu y byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru ar 14 Mehefin. Mae'r drafodaeth yn debygol o ganolbwyntio ar fyfyrddodau ar etholiadau llywodraeth leol mis Mai yn Lloegr a newidiadau yn sgil y Deddf Etholiadau 2022.

Cynhelir y cyfarfod o bell, a'r tro hwn rwyf wedi cytuno i'w Gadeirio yn sgil y cytundeb i gylchdroi'r trefniadau cadeirio rhwng y Gweinidogion. Hefyd yn bresennol, bydd George Adam MSP, Aelod o Senedd yr Alban, y Gweinidog dros Fusnes Seneddol yn Llywodraeth yr Alban, Steve Baker MP, y Gweinidog Gwladol yn Swyddfa Gogledd Iwerddon Llywodraeth y DU, a Barwnes Scott o Bybrook OBE, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y DU.

Ysgrifennaf atoch eto ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 25

Eitem 3.2

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Huw.Irranca-Davies@senedd.cymru

6 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, hoffem roi gwybod ichi fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi'i gynnal ar 22 Mai 2023.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Lorna Slater ASA, y Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, yr Economi Gylchol a Bioamrywiaeth. Yn bresennol hefyd yn y cyfarfod oedd Mairi Gougeon ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig, Diwygio Tir ac Ynysoedd, Dr Theresa Coffey, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Alistair Jack AS, Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, James Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, Rebecca Pow, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ansawdd a Chadernid yr Amgylchedd a Mrs Katrina Godfrey, yr Ysgrifennydd Parhaol yn absenoldeb Gweinidog Gogledd Iwerddon.

Rhoddodd Ysgrifennydd Gwladol DEFRA ddiweddariad ar Fframwaith Bioamrywiaeth y DU yn ogystal â diweddariad ar gynlluniau ar gyfer ymateb y DU i Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Trafodwyd cais Llywodraeth yr Alban am gael ei heithrio o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU o ran ei Chynllun Dychwelyd Ernes. Gofynnodd Ysgrifennydd Gwladol yr Alban am gynnal gwaith pellach cyn y gellid ystyried eithriad er gwaethaf y ffaith bod prosesau cywir y fframwaith yn cael eu dilyn gan Lywodraeth yr Alban. Rhannom ein pryder sylweddol fod prosesau ychwanegol yn cael eu hychwanegu y tu hwnt i brosesau'r Fframwaith Cyffredin.

Wedi hynny, trafodwyd bwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno gwaharddiad ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Mae'r cynnig hwn wedi ei wneud yn gyflym heb fawr o ystyriaeth wedi'i roi i gydweithio. Gan gofio am ein huchelgais a rennir i fynd i'r afael â'r mater o weips gwlyb, pwysleisio fanteision cydweithio a manteision defnyddio dulliau prosesau'r fframweithiau cyffredin.

Mater nesaf yr agenda oedd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio). Rhoddodd Ysgrifennydd Gwladol DEFRA ddiweddariad inni ynghylch cynlluniau diweddaraf Llywodraeth y DU. Tynnem sylw at yr angen am dryloywder ynghylch effeithiau'r Bil ar feysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli ac eglurder ynghylch gwahaniaeth barn posibl a all godi yn sgil y Bil.

I gloi, rhoddodd Llywodraeth yr Alban gyflwyniad ynghylch ei gweledigaeth a'i huchelgais ar gyfer yr Economi Las.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 26 Mehefin.

Bydd datganiad ynghylch y cyfarfod hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU ar: <https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs>.

Cofion,

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd
Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales,
and Trefnydd

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newis Hinsawdd
Minister for Climate Change

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio) 2023
DYDDIAD	07 Mehefin 2023
GAN	Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi rhoi ei chymeradwyaeth i'r Gweinidog dros Fioddiogelwch a Materion Morol a Gwledig i Orchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio) 2023 (y Gorchymyn) gael ei wneud yn Senedd y DU.

Gwneir y Gorchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer pwerau a roddwyd gan adrannau 87, 88 a 97(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, a pharagraff 6(a) o Atodlen 8 a pharagraffau 5 ac 8 o Atodlen 10 i'r Ddeddf honno (a).

Mae'r Gorchymyn yn diwygio Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008 (O.S. 2008/576) (Gorchymyn 2008) a sefydlodd Fwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), ac yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi ardollau i ddarparu gwasanaethau mewn sectorau amaethyddol penodol. Bydd y Gorchymyn yn gwneud y canlynol:-

- Diwygio'r broses cymeradwyaeth Gweinidogion ar gyfer cyfraddau ardollau
- Caniatáu ar gyfer y gallu i osod cyfradd o sero os oes angen i ymateb i argyfyngau yn y sector
- Cadarnhau tymor y Cadeirydd neu aelod o'r Bwrdd yn y rôl. Gall hyn fod am hyd at ddau dymor ac ni ddylai fod dros gyfanswm o wyth mlynedd. Bydd hyn yn ei gysoni â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet
- Diwygio'r ddarpariaeth ar gyfer didynnu ardollau i sicrhau eu bod yn gyson ac yn fwy hyblyg ar draws pob sector.
- Estyn cwmpas yr AHDB i weithio gyda sectorau amaethyddol eraill (nad ydynt yn talu ardollau) ledled y DU
- Sicrhau bod ardollau ar rawnfwydydd neu hadau olew yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad am yr ardoll.

Gosodwyd y Gorchymyn gerbron Senedd y DU ar 6 Mehefin 2023 i ddod i rym 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei wneud.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/1347/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.wales

7 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 26 Mai 2023, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fy mod wedi [rhoi cymeradwyaeth](#) ar gyfer Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio) 2023, ac mae'r Gorchymyn wedi cael ei osod yn Senedd y DU. Bydd y Gorchymyn yn gwneud newidiadau i Orchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008 (Gorchymyn AHDB).

Sefydlwyd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth drwy Orchymyn 2008, o dan bwerau yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Deddf NERC).

Mae Gorchymyn 2023 yn diwygio Gorchymyn 2008, ac mae'n cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 87, 88 a 97(1) o Ddeddf NERC, a pharagraff 6(a) o Atodlen 8 a pharagraffau 5 ac 8 o Atodlen 10 i'r Ddeddf honno, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Cofion,

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 29



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â'r UE) 2023

DYDDIAD 7 Mehefin 2023

GAN Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno gwybod bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth er mwyn gwneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau mewn maes datganoledig o ran Cymru.

Mae Will Quince AS, y Gweinidog Gwladol dros Iechyd a Gofal Eilaidd, yn bwriadu gwneud Offeryn Statudol (OS) sy'n gymwys i'r DU gyfan o'r enw Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â'r UE) 2023 ("y Rheoliadau HIA").

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud yr OS a nodwyd uchod drwy arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) 2019 ("y Ddeddf") (a fu'n dwyn y teitl Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 gynt, ond a gaiff ei hailenwi gan adran 162 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022, ar ôl iddi gael ei chychwyn).

Mae'r OS yn gwneud darpariaeth i roi effaith i Gytundebau Gofal Iechyd Rhyngwladol rhwng Llywodraeth y DU a Gwledydd Gweddill y Byd, yn ogystal ag ymrwymïadau eraill sy'n ymwneud â darparu gofal iechyd o'r fath, ac at ddibenion cysylltiedig. Mae rhai agweddau o'r Rheoliadau HIA mewn maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli.

Cafodd y Rheoliadau eu gosod gerbron Senedd y DU ar 5 Mehefin 2023 a byddant yn dod i rym yn syth ar ôl i adran 162 o Ddeddf 2022 ddod i rym. Mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru fod hyn yn debygol o ddigwydd yn yr haf.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Dim.

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno nodi nad yw'r Rheoliadau yn trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Diben y rheoliadau

Fel y nodwyd, gwneir y Rheoliadau HIA drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan y Ddeddf. Bydd y prif bŵer galluogi i'w weld yn adran 2 o'r Ddeddf. O dan adran 2A o'r Ddeddf caiff Gweinidogion Cymru hefyd, drwy reoliadau, wneud darpariaethau penodol sy'n gyfwerth â'r rheini y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol eu gwneud drwy ddefnyddio adran 2, er ni chânt wneud yr holl ddarpariaethau, a dim ond pan fo darpariaeth ym maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli y cânt ei gwneud.

Bydd y Rheoliadau HIA yn disodli fframwaith cyfreithiol y DU ar gyfer gweithredu'r trefniadau gofal iechyd y darperir ar eu cyfer mewn rheoliadau presennol, sef Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) (Ymadael â'r UE) 2019 ("y Rheoliadau HEEASA"), sydd wedi eu gwnaed mewn perthynas â darparu gofal iechyd cilyddol yng ngwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir, gan gynnwys mewn perthynas â gwneud taliadau. Mae'r Rheoliadau HEEASA hefyd yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i roi effaith i drefniadau gofal iechyd cilyddol â'r Undeb Ewropeaidd, Gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir.

Mae'r Rheoliadau HIA yn debyg i'r Rheoliadau HEEASA i raddau helaeth, ond maent yn ehangu cwmpas y fframwaith cyfreithiol i gynnwys cytundebau gofal iechyd rhwng Llywodraeth y DU a gwledydd Gweddill y Byd. Mae'r Rheoliadau HIA yn gwneud y canlynol:

- galluogi i daliadau gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail y DU gyfan yn unol â chytundeb gofal iechyd cilyddol;
- galluogi i daliadau gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail y DU gyfan o dan amgylchiadau eithriadol;
- gosod gofyniad ar Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG er mwyn rhoi effaith i rwymedigaethau ac ymrwymadau'r DU o dan gytundebau gofal iechyd perthnasol, gan gynnwys prosesu swyddogaethau triniaeth famolaeth wedi'i chynllunio;
- gosod swyddogaethau gwybodaeth a chyngor ar Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG;
- rhestru gwledydd Gweddill y Byd sy'n rhan o gytundebau gofal iechyd rhyngwladol â'r DU;
- gosod swyddogaethau triniaeth wedi'i chynllunio S2 ar Fyrddau Iechyd Lleol Cymru, NHS England a Byrddau Iechyd yr Alban (h.y. i wneud penderfyniadau clinigol ynghylch ceisiadau ac i bennu a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau S2, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer proses adolygu).

Gellid gwneud rhai agweddau ar y Rheoliadau HIA, yn eu cyfanrwydd neu'n rhannol, gan ddarpariaethau mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 2A o'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion y darpariaethau, a diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

[Rheoliadau Gofal Iechyd \(Trefniadau Rhyngwladol\) \(Ymadael â'r UE\) 2023 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

Y rhesymau pam y mae cytundeb wedi'i roi

Rwyf wedi cytuno y dylai Llywodraeth y DU wneud darpariaethau yn y Rheoliadau HIA o ran Cymru ym maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli am resymau ymarferoldeb, effeithlonrwydd ac eglurder cyfreithiol.

Yn gyntaf, mae'r OS wedi cael ei ystyried yn llawn, ac mae ein safbwynt polisi yn hyn o beth yr un peth â safbwynt Llywodraeth y DU ar hyn o bryd. Nid wyf yn rhagweld y bydd y sefyllfa hon yn newid, felly mae darpariaethau'r Rheoliadau HIA yn gydnaws â'n polisi ni. Pe bai ein polisiâu yn y maes hwn yn gwahanu oddi wrth ei gilydd yn y dyfodol, mae'r pŵer gennym o dan adran 2A o Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) 2019 i wneud ein rheoliadau ein hunain er mwyn gweithredu newidiadau penodol yng Nghymru, ar yr amod bod y newidiadau hynny o fewn cymhwysedd datganoledig, y mae ei gwmpas wedi ei ragnodi gan adran 2A(2) a (4)(b) o'r Ddeddf. Felly, ni fyddai'n niweidiol i bolisiâu presennol Cymru na pholisiâu'r dyfodol yn y maes hwn pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud y ddarpariaeth hon i Gymru.

Yn ail, mae'r ffordd hon o weithio hefyd yn arwain at lyfr statud sy'n gydlynol ac yn gyson, ac yn sicrhau bod y rheoliadau ar gael mewn un offeryn

Yn drydydd, bob tro y mae Llywodraeth y DU yn ymrwymo i gytundeb gofal iechyd newydd â gwlad neu diriogaeth, bydd angen diwygio'r Rheoliadau HIA er mwyn ychwanegu'r wlad honno neu'r diriogaeth honno i'r Atodlen ar sail y DU gyfan, er mwyn rhoi effaith i'r cytundeb a'i weithredu ledled y DU. O ystyried bod Llywodraeth y DU yn bwriadu ceisio cytundebau â nifer o wledydd yn y blynyddoedd sydd i ddod, gallai fod angen gwneud cyfres barhaus o ddiwygiadau i'r Atodlen. Bydd yn ofynnol i Lywodraeth y DU ddiwygio'r Atodlen bob tro y mae'n ymrwymo i gytundeb gofal iechyd newydd, o leiaf o ran Lloegr. Am fod gan Lywodraeth y DU y cymhwysedd i ddiwygio'r Atodlen ar sail y DU gyfan, mae'n ymarferol ac yn effeithlon iddi gymhwyso unrhyw ddiwygiad o'r fath i Gymru, o ystyried y byddai angen diwygiad cyfatebol o ran Cymru beth bynnag.

Yn olaf, mae'n debygol mai ychydig iawn o effaith fydd rhestru cytundebau o'r fath yn y Rheoliadau HIA yn ei chael ar y Byrddau Iechyd Lleol. Felly nid deddfu ar wahân i Gymru pan fydd angen rhestru cytundeb newydd fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen yn fy marn i, ac ni fyddai'n ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

7 Mehefin 2023

Annwyl Huw

Rwy'n cyfeirio at fy llythyrau atoch dyddiedig 25 Ebrill a 2 Mehefin 2023. Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i'r Pwyllgor bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â'r UE) 2023 ("y Rheoliadau HIA"). Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig mewn perthynas â'r mater hwn sydd ar gael yn: [gen-ld15871-w.pdf \(senedd.cymru\)](#)

Gwnaed y Rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) 2019.

Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a chafodd ei osod gerbron Senedd y DU ar 5 Mehefin 2023.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Y Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach

DYDDIAD 07 Mehefin 2023

GAN Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, gallaf roi gwybod i Aelodau fy mod wedi mynd i'r Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach ar 25 Mai.

Roedd y canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

- Y Gweinidog Huddleston, Y Gweinidog Gwladol yn yr Adran Busnes a Masnach.
- Y Gweinidog Lohead, Gweinidog yr Alban dros Fusnesau Bach, Masnach ac Arloesi.
- Y Gweinidog Davies, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Swyddfa Cymru.

Y Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach yw'r prif fforwm i drafod materion polisi masnach rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, a Llywodraeth yr Alban.

Yn y fforwm, fe wnaethom drafod yr wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau parhaus ynghylch y Cytundeb Masnach Rydd gydag India a Chanada a'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda nifer o daleithiau Unol Daleithiau America. Bydd cyd-hysbysiad ynghylch y cyfarfod yn cael ei gyhoeddi maes o law.



Ein cyf/Our ref DC/VG/00469/23

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach
a Materion Gwledig
SeneddEconomi@senedd.cymru

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

7 Mehefin 2023

Annwyl Paul, Huw

Rwy'n ysgrifennu'n unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, er mwyn rhoi gwybod ichi fy mod wedi mynd i'r Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach ar 23 Mai.

Roedd y canlynol yn bresennol yn y cyfarfod: Nigel Huddleston, Y Gweinidog Gwladol yn yr Adran Busnes a Masnach; Richard Lohead, Gweinidog yr Alban dros Fusnesau Bach, Masnach ac Arloesi a James Davies, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Swyddfa Cymru. Bydd cyd-hysbysiad ynghylch y cyfarfod yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Yn y fforwm, fe wnaethom drafod yr wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau ynghylch y Cytundeb Masnach Rydd gydag India a Chanada yn ogystal â'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU a nifer o daleithiau Unol Daleithiau America, y mae rhai ohonynt wedi eu cwblhau, a rhai ohonynt yn dal i gael eu trafod.

Nododd y Gweinidog Huddleston y byddai'n trefnu bod y strwythur adrannol newydd a chyfrifoldebau gweinidogol dros yr Adran Busnes a Masnach yn cael eu rhannu â'r Llywodraethau Datganoledig, a gallaf sicrhau bod hyn yn cael ei rannu â chi petai o ddefnydd ichi.

Rhoddodd y cyfarfod gyfle imi gyfleu ein barn ar y trafodaethau presennol gydag India a Chanada. Fe wnes i barhau i bwysleisio ein safbwynt bod yn rhaid i unrhyw gytundeb masnach gefnogi ein hamcanion polisi ehangach, gan gynnwys mewn meysydd fel yr amgylchedd a llafur. Rwyf wastad wedi bod yn glir na ddylai unrhyw gytundeb masnach danseilio'r safonau uchel sydd gennym yma yng Nghymru.

O ran India a Chanada, fe ailadroddais ein barn, sef ein bod yn deall ei bod yn debygol y bydd cyfaddawdu mewn unrhyw gytundeb, ond y dylai Llywodraeth y DU sicrhau na ddylai unrhyw fynediad at y farchnad y cytunir arnynt ar gyfer y cytundebau hyn effeithio ar sectorau pwysig yng Nghymru, megis amaethyddiaeth a dur.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto i roi gwybod ichi am ddyddiad y cyfarfod nesaf.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AS/MS

Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Y Bil Mudo Anghyfreithlon: y mater o gydsyniad deddfwriaethol

Tystiolaeth a gyflwynwyd gan Sefydliad Bevan i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac hefyd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wrth iddyn nhw ystyried eu hymateb i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd mewn perthynas â'r Bil Mudo Anghyfreithlon (y cyfeirir ato isod fel 'y Bil').

Ysgrifennir y ddogfen hon gan gyfeirio at y Bil diwygiedig fel y saif hwnnw ar Fehefin 1^{af} 2023 (HL Bill 133)

Pwyntiau allweddol

- Mae'r Bil yn mynd yn groes i'r weledigaeth o ystyried Cymru fel Cenedl Noddfa a'r egwyddor 'Plentyn yn Gyntaf, Mudwr yn Ail' sy'n sail i'r gwaith o ddarparu cymorth i blant sy'n ceisio lloches yng Nghymru.
- Mae'r Bil yn cynnig darpariaethau ym maes datganoledig gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Mae'r Bil yn cyflwyno pwerau sy'n gwrthdaro â dyletswyddau awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Mae'r Bil yn anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU, a Chymru fel llywodraeth ddatganoledig, o dan Gonfensiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig 1951, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (EHCR), Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a Chonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn Erbyn Masnachu mewn Pobl.
- Mae'r Bil yn mynd yn groes i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.
- Dydy'r Bil ddim wedi rhoi ystyriaeth i les gorau'r plentyn.
- Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd. Rydyn ni'n annog y Pwyllgorau i argymhell bod y Senedd yn gwrthod cydsyniad deddfwriaethol.

Cynnwys

1. Trosolwg: ein barn am y Bil.....	2
2. Plant sydd wedi eu gwahanu/ar eu pen eu hunain yng Nghymru.....	2
3. Goblygiadau ar gyfer gofal a chymorth i blant	3
4. Hawliau plant a hawliau dynol yng Nghymru.....	9
5. Argymhellion	11

Tystiolaeth

1. Trosolwg: ein barn am y Bil

- 1.1 Mae hwn yn ymateb i wahoddiad y Pwyllgorau i roi tystiolaeth ynghylch y mater o gydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Mudo Anghyfreithlon. Mae'n canolbwyntio ar agweddau ar y Bil sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd.
- 1.2 Mae gan Sefydliad Bevan bryderon ehangach am y Bil Mudo Anghyfreithlon a'i effaith ar hawliau dynol, cyfansoddiad y DU, a rheolaeth y gyfraith. Mae'r Bil yn mynd yn groes i egwyddorion Cenedl Noddfa ac yn tanseilio'r weledigaeth o Gymru fel gwlad lle mae pobl sy'n ceisio noddfa yn cael croeso, dealltwriaeth a dathliad – gweler ([Wales: Nation of Sanctuary](#))
- 1.3 Dydy'r Bil Mudo Anghyfreithlon ddim yn gydnaws â rhwymedigaethau'r DU a Chymru o dan gyfraith ryngwladol.
- 1.4 Mae cwmpas y Bil yn eang. Mae'n dileu'r hawl i geisio diogelwch ffoaduriaid ar gyfer rhai sy'n cyrraedd ar lwybrau anghonfensiynol. Mae'n cwtogi ar awdurdodaeth yr Uchel Lys mewn perthynas â phenderfyniadau ar gadw ac mewn rhai amgylchiadau mae'n cyfyngu ar effeithiau adolygiad barnwrol. Mae'n rhoi pwerau helaeth i'r Ysgrifennydd Cartref i ddiddymu, diwygio, a dirymu deddfwriaeth bresennol ac i roi weithredu newidiadau pellach i'r gyfraith gyda chyn lleied â phosibl o graffu Seneddol.
- 1.5 Mae'r brys y mae'r deddfwriaeth yn cael ei gyrru rhagddi'n peri pryder, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau y bydd yn eu gosod ar y llysoedd a'r corff deddfu i arfer eu swyddogaethau hanfodol i herio a chyfyngu ar bwerau Gweithredol.

2. Plant sydd wedi eu gwahanu/ar eu pen eu hunain yng Nghymru

2.1 Cefndir

- 2.1.1 Mae [StatsCymru](#) yn dangos, ym mlwyddyn 2022, bod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gofalu am 110 o blant ar eu pen eu hunain.
 - Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gofalu am o leiaf un plentyn ar eu pennau eu hunain.
 - Mae nifer y plant sydd ar eu pen eu hunain yng Nghymru yn debygol o godi wrth i drosglwyddiadau a gwasgaru ceiswyr lloches gynyddu.
 - Mae 30% o'r plant ar eu pennau eu hunain yn y DU yn 15 oed neu iau.

2.1.2 Yn y ddogfen hon rydyn ni'n defnyddio'r term 'plant ar eu pen eu hunain' er mwyn eglurder. Pwysleisiwn nad oes gwahaniaeth rhwng plentyn ar ei ben ei hun ac unrhyw blentyn arall, ac eithrio ei amgylchiadau a'i brofiadau bywyd.

2.2 Pryderon allweddol

2.2.1 Mae'r rhan fwyaf o blant ar eu pen eu hunain yn cael eu gorfodi i ddefnyddio llwybrau anghonfensiynol i sicrhau diogelwch yn y DU oherwydd diffyg llwybrau rheolaidd. Mae'r Bil yn cosbi plant oherwydd y ffordd y maen nhw'n cael eu gorfodi i geisio diogelwch.

2.2.2 Mae angen mwy o gymorth – a hwnnw'n un cyson – ar gyfer plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain yng Nghymru. Rydyn ni'n cefnogi'r alwad am gynllun gwarcheidiaeth cenedlaethol ar gyfer pob plentyn ar ei ben ei hun yng Nghymru – gweler ([guardian for unaccompanied children](#)) a mynediad parod i gyngor a chynrychiolaeth cyfreithiol arbenigol.

3. **Goblygiadau ar gyfer gofal a chymorth i blant**

3.1 Cefndir

3.1.1 Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae plant ar eu pen eu hunain yng Nghymru yn cael eu trin fel plant sy'n derbyn gofal.

3.1.2 Mae plant ar eu pen eu hunain yn debygol o fod ag anghenion cymorth ychwanegol. Mae papur briffio Llywodraeth Cymru, [Cefnogi plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru](#) yn nodi:

“Mae'n debygol y bydd y plant hyn mewn mwy o berygl o gael eu cam-fanteisio neu eu cam-drin ac efallai na allant fanteisio cystal ar addysg neu gyfleoedd i feithrin perthynas gymdeithasol â chyfoedion oherwydd rhwystrau ieithyddol.”

3.2 Pryderon allweddol

3.2.1 Mae plant ar eu pen eu hunain yng Nghymru eisoes yn wynebu risgiau annerbyniol. Mae plant gafodd eu cipio yn ddiweddar o westai yn Sussex a Chaint wedi cael eu darganfod yng Ngogledd a De Cymru ([Y Guardian: missing child refugees](#)). Pan osododd y Swyddfa Gartref 87 o geiswyr lloches mewn gwesty yn Eryri y llynedd, ymhlith y rhai oedd yno roedd 15 o bobl ifanc angen gofal awdurdod lleol ([Daily Post: Snowdonia hotel](#))

3.2.2 Heb weithdrefnau asesu cadarn, gofal priodol, a pharhad cymorth a chefnogaeth sy'n ymestyn y tu hwnt i'w cyfnod mewn gofal, mae plant ar eu pen eu hunain mewn mwy o berygl o gael eu cipio, yn rhan o fasnachu mewn pobl a'u hecsbloetio. Mae'n hanfodol i'w llesiant bod y ddyletswydd a'r pŵer i ddarparu gofal, cymorth a chefnogaeth yn aros gyda'r awdurdod lleol.

3.2.3 Byddai'r elfennau a ganlyn o'r Bil yn effeithio'n ddifrifol ar les plant a phobl ifanc ac yn gwrthdaro â dyletswyddau a roddwyd i awdurdodau lleol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

3.3 Dyletswydd i symud ymaith y rhai sy'n gadael gofal o'r DU

Y gyfraith ar hyn o bryd:

3.3.1 Mae [rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) yn [rhoi cyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol](#) i ddarparu cefnogaeth i rai sy'n gadael gofal. Mae hyn yn cydnabod bod angen cymorth, cefnogaeth a chyswllt parhaus ar bobl ifanc sy'n gadael gofal.

3.3.2 Mae'r ddyletswydd i roi cymorth yn parhau y tu hwnt i 18 oed pan fo unigolyn ifanc wedi bod yng ngofal awdurdod lleol am 13 wythnos neu fwy cyn ei ph/ben-blwydd yn 18 oed.

Y gyfraith arfaethedig:

3.3.3 Mae Cymal 2(1) yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Cartref i drefnu symud oedolion ymaith o'r DU os ydyn nhw'n cyrraedd drwy drefniadau anghonfensiynol. Byddai'r ddyletswydd hon yn berthnasol i bobl ifanc pan fyddan nhw'n cyrraedd 18 oed a byddai'n arwain at alltudio'n orfodol y rhai sy'n gadael gofal ac ar eu pen eu hunain.

3.3.4 Byddai'r ddyletswydd yn ymestyn i blant sydd ag aelodau o'u teulu yn y DU, hyd yn oed pan fo'r teuluoedd hynny wedi cael amddiffyniad dyngarol ac yn ffoaduriaid cydnabyddedig.

3.3.5 Mae'r Bil yn cyfyngu'n ddifrifol ar yr hawl i apelio ac yn cyfyngu'n gyfreithiol ar y sail fyddai ganddyn nhw i rwystro rhag cael eu symud ymaith. Mae'n cyflwyno gweithdrefn fyrrach sy'n ei gwneud yn ofynnol i unigolyn geisio cyngor cyfreithiol a gwneud hawliad o fewn 7 diwrnod. Rhaid i'r Swyddfa Gartref ddod i benderfyniad o fewn 3 diwrnod.

3.3.6 Byddai hawliadau lloches gan bobl ifanc sy'n destun y ddyletswydd i alltudio yn cael eu gwneud yn annerbyniadwy. Byddai cefnogaeth ac amddiffyniadau o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn cael eu dileu. Byddai'r ddyletswydd i alltudio yn berthnasol hyd yn oed os ydy person ifanc yn ddiodefydd masnachu mewn pobl, neu pan fo yna gais ar sail hawliau dynol neu adolygiad barnwrol.

3.3.7 Byddai'r ddeddfwriaeth yn cyfyngu ar ganiatáu fisas, setliad a dinasyddiaeth yn y dyfodol i unrhyw un sydd ar unrhyw adeg wedi bod yn destun gorchymyn i'w symud ymaith.

Yr effaith:

3.3.8 Byddai'r ddeddfwriaeth yn creu gwrthdaro rhwng dyletswyddau ar ran yr Ysgrifennydd Cartref ac awdurdodau lleol ar gyfer y rhai 18 oed sy'n gadael gofal ac wedi cael eu lletya

fel plant ar eu pen eu hunain. Byddai'n dadwneud unrhyw bosibilrwydd o allu cynnig cymorth gan awdurdodau lleol i'r rhai sy'n gadael gofal ar eu pen eu hunain.

3.3.9 Byddai posibilrwydd o gael eu halltudio yn cael effaith sylweddol ar les emosiynol plant ar eu pen eu hunain drwy gydol eu cyfnod mewn gofal.

3.4 Pwerau i symud plant ar eu pennau eu hunain ymaith o'r DU

Y gyfraith ar hyn o bryd:

3.4.1 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol tuag at blant sydd angen gofal a chymorth. Dyma nhw:

- dyletswydd i asesu anghenion (Adran 21)
- dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth (Adran 37)
- pŵer i ddiwallu anghenion gofal a chymorth (Adran 38)

3.4.2 Wrth ofalu am blant ar eu pen eu hunain, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd trosfwaol i roi sylw dyledus i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

3.4.3 O dan Adran 28 o Ddeddf Plant 2004, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrrff statudol eraill i [gydweithio i ddiogelu plant a phobl ifanc](#). Mae adran 47 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud ymholiadau pan fo'n amau bod plentyn mewn perygl.

3.4.4 Mae [canllawiau Llywodraeth Cymru](#) yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol, wrth ymwneud â phlentyn ar ei ben ei hun, ystyried a ydy e neu hi mewn perygl o niwed difrifol. Dylen nhw asesu a ydy plentyn wedi'i fasnachu.

3.4.5 Mae'r ddyletswydd i amddiffyn a diogelu plant yn ddyletswydd barhaol ac mae'n berthnasol p'un a ydy'r plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol ai peidio

Y gyfraith arfaethedig:

3.4.6 O dan Gymal 3 o'r Bil, byddai gan yr Ysgrifennydd Cartref y pŵer i symud plant ar eu pen eu hunain ymaith o'r DU cyn eu bod yn 18 oed.

3.4.7 Mae taflen ffeithiau plant Bil Ymfudo Anghyfreithlon Llywodraeth y DU: [Illegal Migration Bill: children factsheet](#) (a ddiweddarwyd 11/05/2023) yn nodi'n glir mai'r bwriad ydy alltudio rhai plant cyn iddyn nhw gyrraedd 18 oed, ac y bydd plant yn cael eu cadw'n orfodol mewn llety ('detained' ydy'r gair) cyn eu symud ymaith. Gellir diwygio'r amgylchiadau i'w symud ymaith drwy reoliad.

Yr effaith:

- 3.4.8 Byddai pŵer yr Ysgrifennydd Cartref i symud plant ymaith ar eu pen eu hunain, ynghyd â phwerau cadw estynedig (gweler 3.5 isod), yn gwrthdaro â dyletswyddau asesu a diogelu awdurdodau lleol. Byddai'n cyfyngu ar bŵer awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion plant ar eu pen eu hunain drwy gynnig gofal, llety a chymorth.
- 3.4.9 Yn groes i'r drefn 'Plentyn yn Gyntaf, Mudwr yn Ail', mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn gosod safle'r plentyn fel mudwr a'i ddull o gyrraedd y DU uwchlaw ei statws fel plentyn.
- 3.4.10 Dydy'r Bil ddim yn rhoi lles y plentyn fel blaenoriaeth nac yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi sylw dyledus i anghenion plant unigol. Dydy'r Bil ddim yn cyfeirio at asesu anghenion nac amddiffyn hawliau plant.

3.5 Ymestyn pwerau cadw

Y gyfraith ar hyn o bryd:

- 3.5.1 Mae cadw plant sydd ar eu pen eu hunain yn gyfyngedig ar hyn o bryd, o dan Ddeddf Mewnfudo 2014, i 24 awr mewn "cyfleuster cadw tymor byr".
- 3.5.2 Mae Cyfarwyddiadau a Chanllawiau Gorfodi'r Swyddfa Gartref ([Home Office Enforcement Instructions and Guidance](#)) ar hyn o bryd yn rhestru plant o dan 18 oed ac ar eu pen eu hunain, menywod beichiog, a dioddefwyr masnachu mewn pobl, ymhlith y rhai sy'n anaddas i gael eu cadw.

Y gyfraith arfaethedig:

- 3.5.3 . Mae Cymal 10 o'r Bil yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Cartref gadw person "o unrhyw oedran", "mewn unrhyw le" a ystyrir yn briodol, gan gynnwys lleoliadau heb eu rheoleiddio. Mae'n dileu'r terfynau amser statudol presennol ar gadw teuluoedd â phlant, plant ar eu pen eu hunain, a menywod beichiog.
- 3.5.4 Mae cymal 11 yn darparu ar gyfer cadw plant sydd ar eu pen eu hunain yn gaeth. Gall plant gael eu cadw tra bydd penderfyniad ar eu symud ymaith yn cael ei wneud, neu tra'n aros i gael ei symud, neu tra bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a ddylid eu caniatáu i aros.

Yr effaith:

- 3.5.5 Mae'r Bil yn gwrthdroi ymrwymiad Llywodraeth y DU i roi terfyn ar gadw plant yn y ddalfa. Mae'n dileu mesurau diogelu pwysig i blant ac oedolion agored i niwed ac yn caniatáu cadw'n gaeth ddioddefwyr masnachu mewn plant a chaethwasiaeth.

- 3.5.6 Dydy'r Bil ddim yn pennu terfynau amser ar gyfer cadw. Mae'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol (er nad oes dyletswydd) i bennu terfynau amser ar gadw drwy rooleiddio yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth sylfaenol.
- 3.5.7 Mae'r Bil yn cyfyngu ar oruchwyliaeth y llys ar gyfer cadw, heb unrhyw hawl i droi at y llysoedd am y 28 diwrnod cyntaf.
- 3.5.8 Mae Cymdeithas y Meddygon wedi galw ar "ASau ac Arglwyddi i wrthwynebu'r mesur am resymau meddygol a moesegol", yn enwedig mewn perthynas â chymalau sy'n galluogi cadw plant am gyfnod amhenodol – gweler ([Joint Parliamentary Briefing](#)).

3.6 Aseidiadau oedran

Y gyfraith ar hyn o bryd:

- 3.6.1 Mae asesu oedran yn dod o dan y maes gofal cymdeithasol datganoledig yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu a ydy'r unigolyn yn blentyn ac angen gofal.

Y gyfraith arfaethedig:

- 3.6.2 Mae cymalau 55 a 56 yn ymwneud â'r Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran ac yn darparu ar gyfer dulliau gwyddonol o asesu oedran, a all gynnwys sganio, pelydr-X, neu fesur rhannau o'r corff, gwirio dannedd, samplu DNA, ac archwilio corfforol.
- 3.6.3 Mae'r Bil yn diddymu'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniad asesiad oedran. Gall y penderfyniad gael ei adolygu'n farnwrol ond gall plentyn gael ei symud ymaith tra bod adolygiad barnwrol yn mynd rhagddo. Mae'r Bil yn caniatáu i blentyn gael ei drin fel oedolyn os ydy'n gwrthod cydsynio â'r dulliau gwyddonol.

Yr effaith:

- 3.6.4 Mae trin plant fel oedolion yn risg mawr o ran diogelu ac yn amlwg yn cyfyngu ar eu hawliau. Mae plant sydd wedi'u trawmateiddio yn fwy tebygol o wrthod ymostwng i'r dulliau mewnwthiol dan ystyriaeth.
- 3.6.5 Dydy dulliau gwyddonol ddim yn gywir wrth bennu oedran. Mae'r mesurau hyn yn fewnwrthiol ac yn drawmatig i blant. Mae Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) yn gwrthwynebu dulliau gwyddonol a sefydlu'r Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran.
- 3.6.6 Byddai sefydlu'r Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran yng Nghymru yn gwrthdaro â dyletswydd bresennol gweithwyr cymdeithasol i asesu oedran ac anghenion plant sydd ar eu pen eu hunain

3.6.7 Mae'n anfoesegol amlygu plant i ymbelydredd pelydr-X heb achos meddygol nac ychwaith i wynebu archwiliadau corfforol diangen.

3.7 Pŵer i gyfarwyddo awdurdodau lleol i drosglwyddo plant o'u gofal

Y gyfraith ar hyn o bryd:

3.7.1 Mae 3.3.1, 3.4.1, a 3.4.3 uchod yn amlinellu dyletswyddau awdurdodau lleol i asesu, cynnig gofal os oes galw, a chwrdd ag anghenion plant sydd ar eu pen eu hunain.

Y gyfraith arfaethedig:

3.7.2 Mae cymalau 15 i 18 yn galluogi'r Ysgrifennydd Cartref i ddiystyru dyletswyddau'r awdurdod lleol i ofalu am blant ac i'w cefnogi. Maen nhw'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Cartref i orchymyn awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth am blentyn neu i orchymyn awdurdod lleol i drosglwyddo plentyn. Gellid defnyddio'r pŵer hwn i gadw plant cyn eu halltudio ond dydy e ddim yn gyfyngedig i'r diben hwn.

3.7.3 Bydd y pwerau hyn yn rhai y gellir eu gorfodi drwy'r llysoedd beth bynnag fo asesiad awdurdod lleol o anghenion plentyn. Mae hyn yn gwrthdaro'n uniongyrchol â dyletswyddau awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

3.8 Pŵer i wneud rheoliadau i ddiddymu neu ddiwygio cyfraith Cymru

Y gyfraith arfaethedig:

3.8.1 Mae pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Cartref o dan Gymalau 15 i 18 yn berthnasol i ddechrau yn Lloegr yn unig. Fodd bynnag, mae Cymal 19 yn galluogi'r Ysgrifennydd Cartref i wneud rheoliadau yn ymestyn eu cais i Gymru ac i ddiystyru cyfraith Cymru.

3.8.2 Mae Cymal 19 (2) yn galluogi'r rheoliadau hyn i "ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad" ac mae 19(4) yn egluro bod hyn yn cynnwys deddfwriaeth a basiwyd yn flaenorol neu ar yr un pryd yn y Senedd.

3.8.3 Mae Cymal 3 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud diwygiadau canlyniadol i unrhyw Ddeddf neu fesur yn y Senedd.

Yr effaith:

3.8.4 Mae gan y cymalau hyn oblygiadau sylweddol i gyfraith Cymru, yn enwedig ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Mesur Hawliau Plant a Phersonau Ifanc (Cymru) 2011.

4. Hawliau plant a hawliau dynol yng Nghymru

4.1 Mesur 2011 Hawliau Plant a Phersonau Ifanc (Cymru) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Y gyfraith ar hyn o bryd:

4.1.1 Mae [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#) yn ymgorffori confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i gyfraith Cymru ac yn rhoi dyletswydd ar weinidogion i roi sylw dyledus i'r confensiwn wrth arfer eu swyddogaethau. Rhaid i benderfyniadau gael eu llywio gan Asesiad Effaith cadarn ar Hawliau Plant. Mae'r Confensiwn yn blaenoriaethu ymrwymiad i fuddiannau gorau'r plentyn ac yn nodi hawliau allweddol sylfaenol.

4.1.2 Mae Erthygl 2 o'r UNCRC yn egluro bod hawliau'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn. Mae'n ofynnol i lofnodwyr y wladwriaeth barchu ac amddiffyn yr hawliau hyn:

“...waeth beth fo hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol, ethnig neu gymdeithasol, eiddo, anabledd, genedigaeth neu statws arall y plentyn neu ei riant neu ei warcheidwad cyfreithiol.”

Y gyfraith arfaethedig:

4.1.3 Mae'r Bil yn effeithio ar allu plant sydd ar eu pen eu hunain yng Nghymru i arfer eu hawl i geisio cael eu diogelu fel ffoaduriaid. Mae'n diystyru amddiffyniadau cyfreithiol a roddir i blant o dan gyfraith ryngwladol ac ymrwymadau a wnaed o dan Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn Erbyn Masnachu mewn Pobl. Mae cymal 2(1) mewn perygl o dorri hawl plentyn i gael aduniad teuluol.

Yr effaith:

4.1.4 Dydy'r Bil Mewnfudo Anghyfreithlon ddim yn gydnaws â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 na Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

4.1.5 Mae [Comisiynydd Plant Cymru](#) wedi mynegi gwrthwynebiadau cryf i'r Bil Mewnfudo Anghyfreithlon ar sail hawliau plant:

“Mae Cymru'n genedl noddfa falch. Mae'r ddeddfwriaeth hon, os caiff ei phasio, yn gwbl groes i'r hyn yr ydym yn ymfalchio ynddo fel cenedl noddfa, ac mae'n doriad clir o'n rhwymedigaeth hawliau dynol.”

4.2 Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn

4.2.1 Ar Fehefin 2^{ail}, cyhoeddodd Pwyllgor CCUHP ar Hawliau'r Plentyn y Sylwadau Terfynol (canfyddiadau) o'i chweched a'i seithfed adroddiad cyfnodol cyfun ar y DU ([Concluding](#)

[Observations](#)). Mae'r Pwyllgor yn tynnu sylw at bryderon mawr ynghylch effeithiau posibl y Bil Ymfudo Anghyfreithlon ar blant.

4.2.2 Mae'r Sylwadau Clo yn galw ar y DU i "ddiwugio ar frys" y Bil Ymfudo Anghyfreithlon, gan ddileu darpariaethau a fyddai'n tramgwyddo ar hawliau plant a rhwymedigaethau rhyngwladol y DU, ac yn benodol:

- y "gwaharddiad ar yr hawl i hawlio lloches";
- darpariaethau sy'n caniatáu ar gyfer cadw a symud plant am gyfnodau hir;
- rhwystrau rhag llwyddo i gael cydnabod eu cenedligrwydd; a
- diffyg ystyriaeth o "egwyddor lles pennaf y plentyn".

4.2.3 Mae'r Pwyllgor hefyd yn galw ar y DU i wneud y canlynol:

- rhoi diwedd ar weithdrefnau "annibynadwy ac ymwithiol" asesu oedran, sicrhau bod plant yn gallu herio eu canlyniadau asesu, a chael mynediad at gyngor cyfreithiol;
- sicrhau nad ydy plant y mae anghydfod ynglŷn â hwy yn cael eu symud i drydedd wlad;
- sicrhau hawl ddiamod plant i wneud cais am ail-ymuno â'r teulu;
- sicrhau bod plant sy'n ddiodefswyr masnachu mewn pobl bob amser yn cael mynediad at wasanaethau perthnasol; ac hefyd
- "datblygu system gyson, statudol o warcheidiaeth annibynnol ar gyfer pob plentyn sydd ar ei ben ei hun".

4.3 Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)

4.3.1 Mae llawer wedi'i ysgrifennu am effaith negyddol y Bil ar hawliau dynol. Mae'r [UNHCR wedi cyfeirio at y ddeddfwriaeth](#) fel "gwaharddiad lloches" ac mae llawer o asiantaethau wedi codi pryderon hawliau dynol. Mae papur briffio gan y Cyd-gyngor Lles Mewnfwudwyr ([A briefing from JCWI](#)) yn crynhoi'r pryderon hyn.

